



# Merched y Wawr

Tegwen Morris: Cyfarwyddwr Cenedlaethol

Canolfan Genedlaethol Merched y Wawr, Stryd yr Efail,  
Aberystwyth, Ceredigion SY23 1JH

Rhif Ffôn: 01970 611 661

E-bost: [swyddfa@merchedywawr.cymru](mailto:swyddfa@merchedywawr.cymru) Gwefan: [www.merchedywawr.cymru](http://www.merchedywawr.cymru)

Rhif Elusen: 506789



17 Tachwedd 2020

Annwyl gysylltydd/ysgrifennydd

Carwn ddiolch o galon i chi fel swyddogion ac fel aelodau am eich cefnogaeth i waith ein mudiad eleni. Mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol o anodd, ond trwy gydweithio rydym wedi llwyddo i gynnal nifer fawr iawn o weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r diolch cyntaf i bawb sydd wedi "Ffonio Ffrind" neu anfon gair at eraill, yn ail i bawb sydd wedi arddangos yr enfys fel arwydd o ddiolchgarwch ac arwydd o obaith. Ac yn sicr carwn ddiolch i bawb sydd wedi bwrw ati i greu "Blodau Gobaith" mae'r lluniau dwi wedi gweld yn rhyfeddol - ac os fydd yn ddiogel fe fydd yna gasgliadau o flodau yn lleol ar Fawrth 1af.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cyfryngau cymdeithasol - yn dudalennau facebook, trydar, ein gwefan ayyb. Mae llun ac erthygl y dydd wedi bod yn boblogaidd iawn. Ac mae'r tudalennau newydd a grëwyd gennym ym mis Mawrth wedi cyrraedd miloedd o bobl - Pwy feddyliau y byddem yn rhannu rhyfeddodau ein cartrefi, creadigaethau crefftus a choginio gyda gweddill y byd yn Gymraeg. Mae'r llyfr Curo'r Corona'n Coginio ar ei bedwerydd argraffiad mewn 3 mis ac wedi cyrraedd rhif 1 am y gwerthiant gorau ym Medi a Hydref - Diolch am eich cefnogaeth anhygoel.

Mae gennym gymaint o aelodau talentog a diolch am gystadlu yn yr Ŵyl Haf, yr Ŵyl Lenyddol, am gyfrannu lluniau i'r Eisteddfodau a'r Sioe a chofiwch fod y Ffair Aeaf ar y gorwel gydag amryw o gystadlaethau difyr iawn. Anogwch bawb i gystadlu. Mae'r ymateb i'r Cwis Hwyl wedi bod yn wirioneddol wych a diolch eto am gymryd rhan. Diolch hefyd i'r rhai a wnaeth ymateb i'r holiadur arferion darllen.

Dwi yn ddiolchgar iawn hefyd i'r criw gweithgar sydd wrthi yn paratoi Cylchgrawn Y Wawr - ac fe gafodd rhifyn dwbl Medi ymateb gwych ac er bod y cyfyngiadau diweddar yma wedi ein rhwystro rhywfaint - mae rhifyn y Gaeaf yn gyfochrog o eitemau difyr. Cofiwch hefyd i ni lansio'r podlediadau ym mis Medi ac mae dros 10,000 wedi gwrandao arnynt yn barod.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn nawdd gan y Loteri Genedlaethol i'n cynorthwyo gyda phrosiect digidol - mae'r staff i gyd wedi cael cyfarpar newydd - sy'n gweithio lawer mwy effeithlon, ac fe fydd cyfres o ddigwyddiadau yn cael eu trefnu i ymateb yn uniongyrchol i'ch anghenion chi fel unigolion, canghennau a chlybiau - felly rhowch wybod sut medrwn fod o gymorth, a beth fydddech yn hoffi gwybod - gall fod mor syml â sut mae ymuno gyda zoom neu sut mae anfon e-bost.

Ond rhaid i ni gofio nad oes mudiad nac elusen yn bodoli heb aelodau - a mawr obeithiwn y bydd nifer fawr o aelodau yn fodlon parhau i gefnogi ein gwaith trwy ymaelodi, ac y bydd digwyddiadau go iawn yn medru ail gychwyn pan fydd yn ddiogel i wneud hynny. Gobeithiwn am iechyd i bob un ohonoch, a chofiwch godi'r ffôn neu anfon e-bost os oes gennych gwestiwn neu bryder, neu os hoffech sgwrs.

Cofion cynnes iawn a dymuniadau gorau

*Tegwen*

**Tegwen Morris –  
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Merched y Wawr  
01970 611 661    07980 504 374**